

GWYBODAETH

YMUNO'R CWRS



BSC (ANRH)

**ASTUDIAETHAU CHWARAEON AC ADDYSG
GORFFOROL DWYIEITHOG**

**YSGOL CHWARAEON A GWYDDORAU
IECHYD CAERDYDD**

Blwyddyn academaidd 2020/2021

MetCaerdydd

CYNNWYS

- 1. Croeso oddi wrth eich Tîm Addysgu**
- 2. Tasgau Haf Cyn-Mynediad**
- 3. Ymrestru / Casglu Cerdyn Met Caerdydd**
- 4. Wythnos Gynefino**
- 5. Amserlen Ddrafft / Presenoldeb Nodweddiadol**
- 6. Newidiadau i'r Cwrs oherwydd COVID-19**
- 7. Dolenni defnyddiol**



1. Croeso gan eich Tîm Addysgu

Rydym wrth ein bodd eich bod yn ymuno â ni ym mis Medi fel rhan o'r rhaglen BSc (Anrh) Astudiaethau Chwaraeon ac Addysg Gorfforol Dwyieithog. Gobeithio eich bod mor gyffrous â ni i ddechrau arni ym mis Medi! Ar ran tîm eich rhaglen, hoffwn estyn croeso i chi i ddechrau eich astudiaethau israddedig yma yn Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae rhaglenni chwaraeon yr Ysgol yn un o'r cyfresi mwyaf o ran maint a mwyaf cynhwysfawr o gyrsiau israddedig sy'n gysylltiedig â chwaraeon yn y DU, ac o ganlyniad, maent yn cynnig profiadau a chyfleoedd cyfoethog ac amrywiol i bob myfyriwr lywio ei yrfa yn y dyfodol.

Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar roi cyfle i chi ddatblygu eich dealltwriaeth academiaidd ac ymarferol o chwaraeon ac addysg gorfforol yn ddwyieithog. Er bod canran fach iawn o'r cwrs yn cael ei darparu drwy gyfrwng y Saesneg (12%), darperir y mwyafrif ohono trwy gyfrwng y Gymraeg, gan roi cyfle i fyfyrwyr Cymraeg ateb y galw cynyddol am raddedigion dwyieithog medrus.

Mae'r cwrs yn cynnig cyfle i archwilio chwaraeon o wahanol safbwyntiau disgyblaethol. Cewch gyfle i feithrin eich gwybodaeth am hyfforddiant chwaraeon (damcaniaethol ac ymarferol), addysg gorfforol, iechyd a lles, arwyddocâd moesegol chwaraeon a gweithgarwch corfforol a'r materion sy'n gysylltiedig â darparu addysg gorfforol a chwaraeon ieuencid o safbwynt addysgeg, yn ogystal â'ch dealltwriaeth ohonynt.

Cyflwynir y rhaglen a'i rheoli gan academyddion profiadol sydd â chyfoeth o brofiad ym maes ymchwil ac addysg gymhwysol, gan gynnwys cymwysterau sydd wedi'u cydnabod yn broffesiynol. Mae pob un ohonynt yn cyfoethogi ac yn gwella eich profiad gyda ni fel myfyriwr. Fel tîm addysgu yr ydym yn gobeithio'n fawr y byddwch yn mwynhau eich amser gyda ni, gan fanteisio ar y cyfle i wneud ffrindiau oes ar y rhaglen ac achub ar y cyfleoedd sydd ar gael i chi ddatblygu'n academiaidd, yn bersonol ac yn broffesiynol.

Rydym i gyd wedi teimlo effaith COVID-19, ac ym Met Caerdydd rydym yn blaenoriaethu llesiant a lles ein myfyrwyr a'n staff wrth i ni benderfynu yn ystod y pandemig a thu hwnt. Mae mwy o fanylion isod sydd yn amlinellu'n cynlluniau ar gyfer ein darpariaeth 2020-2021. Mae ein cynlluniau yn parhau i gael eu datblygu wrth i'r canllawiau gan Lywodraethau'r DU a Chymru gael eu diweddarau; fe'ch diweddarir yn ôl yr angen. Yn ogystal â'ch astudiaethau academiaidd, rydym am gynnig ystod o weithgareddau chwaraeon, iechyd a lles trwy [Chwaraeon Met Caerdydd](#) ac [Undeb y Myfyrwyr](#).

Yn olaf, croeso cynnes mawr i Gaerdydd, ein prifddinas gyffrous o ddiwylliant a chwaraeon. Gobeithio y bydd yr holl ddigwyddiadau chwaraeon a diwylliannol ar gael i chi yn fuan fel y gallwch fwynhau popeth y mae Caerdydd yn ei gynnig.

Rydym wrth ein bodd eich bod wedi ein dewis ar gyfer cam nesaf eich gyrfa, ac rydym yn gobeithio y bydd eich profiad ar y rhaglen Astudiaethau Chwaraeon ac Addysg Gorfforol Dwyieithog yn cwrdd â'ch disgwyliadau.

Wela i chi ym mis Medi!

Dr Neil Hennessy

Cyfarwyddwr Rhaglen

BSc (Anrh) Astudiaethau Chwaraeon ac Addysg Gorfforol Dwyieithog



2. Tasg Dros yr Haf Cyn Mynediad

Nid oes angen cwblhau unrhyw dasgau dros yr haf cyn mynediad ar gyfer y rhaglen Astudiaethau Chwaraeon ac Addysg Gorfforol Dwyieithog. Os ydych am wneud peth darllen ymlaen llaw, yna ceir rhestr o ddeunyddiau darllen a argymhellir o fodiwlau allweddol y rhaglen isod. Mae copiâu o'r llyfrau hyn i gyd ar gael yn Llyfrgell Met Caerdydd, a bydd unrhyw ddolenni i e-lyfrau ar gael unwaith y byddwch wedi ymrestru.

Cassidy, T., Jones, R. a Potrac, P. (2015). *Deall Hyfforddi Chwaraeon: Sylfeini Cymdeithasol, Diwylliannol a Phedagogiaidd Ymarfer Hyfforddi (3^{ydd} Arg.)*. Llundain, DU: Routledge. [e-lyfr]

Jones, C. a Hennessy, N. (2017). Y sgrym: Cyfiawnder a chyfrifoldeb. *Gwerddon*, 25, 70-84.

Jones, R.L., Kingston, K. a Hughes, M. (2013). *Cyflwyniad i Hyfforddi Chwaraeon: Y Theori sy'n Sail i'r Ymarfer*. Caerdydd, DU: Gwasg UWIC.

Upton, D. a Thirlaway, K. (2013). *Promoting Healthy Behaviour: A Practical Guide for Nursing and Healthcare Professionals*. Caeredin, DU: Pearson Education. [e-lyfr]

Williams, G. a Morris, D. (2000). *Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age*. Caerdydd, DU: Gwasg Prifysgol Cymru.

Aelodaeth a Gwefannau Cyrff Proffesiynol

Isod ceir rhestr o wefannau cyrff proffesiynol y gallech edrych arnynt i gael rhagor o wybodaeth am y diwydiant Gweithgarwch Corfforol, Iechyd a Lles Dwyieithog a'r achrediau a'r cyfleoedd gyrfa sydd ar gael yn y maes.

Sefydliad Siartredig Rheoli Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol

www.cimspa.co.uk

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

<http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/>

<https://www.porth.ac.uk/cy/>

<http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/ymchwil/gwerddon/>

Archebu Cit Chwaraeon

Unwaith y byddwch wedi ymrestru, cewch wybodaeth am archebu cit chwaraeon Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd. Mae'r cit hwn yn bryniad opsiynol; mae amrywiaeth o gynhyrchion ar gael. Sicrhewch eich bod yn ymrestru cyn gynted â phosib i dderbyn gwybodaeth am archebu'r cit chwaraeon opsiynol gan ein darparwyr swyddogol. Anfonir y cit at y cyfeiriad a ddarperir yn y broses archebu.

3. Ymrestru / Casglu Cerdyn Met Caerdydd

Mae ymrestru yn broses bwysig a fydd yn cadarnhau eich statws yn Fyfyriwr. Gallwch gwblhau'r broses hunan-ymrestru ar-lein oddi ar unrhyw gyfrifiadur drwy ein system Hunan Wasanaeth.

Noder: er mwyn hunan-ymrestru, rhaid i'ch statws fod yn UF (Pendant Di-amod).

Fe gewch eost yn rhoi gwybod i chi pan fyddwch yn cael ymrestru ar-lein. Fe fydd yr eost yn eich cyfeirio i gyfleuster ail-osod cyfrinair er mwyn gofyn am gyfrinair i gael mewngofnodi a chwblhau'r broses ymrestru. I gael gwybodaeth ac arweiniad ynglŷn â'r broses hon, gwnewch yn siŵr eich bod yn ymweld â'n tudalen ymrestru – www.cardiffmet.ac.uk/enrolment.

Mae'r broses hon yn hanfodol gan y bydd yn eich galluogi i gael mynediad i'ch benthyciad myfyrwyr (os gwneir cais amdano), talu ffioedd, systemau TG Met Caerdydd ac, yn bwysig, bydd yn eich galluogi i gael eich Met Gerdyn Myfyrwyr.

Fe fyddwch hefyd yn derbyn Llawlyfr eich Rhaglen yn ystod yr Wythnos Gynefino. Mae Llawlyfr y Rhaglen yn llyfr hanfodol drwy'r Rhaglen a dylid ei gadw i'w ddefnyddio ar hyd eich cwrs astudio. Bob blwyddyn academiaidd, caiff gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â'r lefel yna ei darparu. Bydd y Llawlyfr yn cynnig canllawiau ar Reolau, Rheoliadau a Gweithdrefnau, a chanllawiau ar ddysgu ar gyfer ymarfer gyda gwybodaeth ar bob modiwl i'w astudio a'r rhestrï darllen.

Ymrestru ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol o'r tu allan i'r UE

Os ydych yn fyfyriwr rhyngwladol (o'r tu allan i'r UE) bydd gofyn i chi gyflwyno rhywfaint o ddogfennaeth cyn cael caniatâd i gael ymrestru ar-lein. I gael rhagor o wybodaeth am ymrestru myfyrwyr rhyngwladol a rhestr o ddogfennau y bydd rhaid i chi eu cyflwyno, ewch i: [tudalennau myfyrwyr rhyngwladol](#) neu cysylltwch â'r Tîm Cydymffurfiad Mewnfudo yma: immigrationregs@cardiffmet.ac.uk.

Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth

Bydd mynediad gennych i Wasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth Met Caerdydd yn fuan wedi i chi gwblhau eich ymrestru ar-lein. Caiff eost ei anfon atoch i gadarnhau hyn ynghyd â manylion mewngofnodi Met Caerdydd. I gael gweld y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael, ewch i www.cardiffmet.ac.uk/library.

Eich Met Gerdyn Myfyrwyr

Mae eich Met Gerdyn yn rhoi mynediad i chi i bob prif adeilad a drws ar y campws. Yn ychwanegol gallwch ychwanegu arian i'ch Met Gerdyn fel y gallwch fod â mynediad i'r argraffyddion hunan-wasanaeth, y copiwr a gwasanaethau'r Stiwdio Print, ac yn gallu talu am y rhain. I gael rhagor o fanteision y Met Gerdyn, cliciwch [yma](#).

Ffioedd

Mae'r ffioedd dysgu ar gyfer graddau israddedig amser llawn a rhaglenni Meistr amser llawn ar gyfer dechrau ym Medi 2020 wedi'u gosod ar £9,000 y flwyddyn. I gael rhagor o wybodaeth ar ffioedd dysgu, edrychwch ar ein [Tablau Ffioedd](#). Os bydd unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm wrth eich rhaglen, byddan nhw wedi'u rhestru ar www.cardiffmet.ac.uk/additionalcosts. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio'r rhain er mwyn sicrhau eich bod yn ymwybodol o unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'ch cwrs.

Mae manylion am ffioedd ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol (o'r tu allan i'r UE) ar gael [yma](#). Dylech fod yn ymwybodol o'r costau hyn eisoes.

4. Wythnos Gynefino

Bydd y cyfnod cynefino ar gyfer pob myfyriwr yn Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd yn dechrau ar Ddydd Llun, Medi 28^{ain} 2020. Fe fydd eich tymor cyntaf yn fyfyriwr newydd yn dechrau gydag Wythnos Gynefino lle y byddwch yn ymgartrefu yn eich llety, yn ymgyfarwyddo â'ch cwrs a'ch bywyd myfyriwr. Mae amserlen eich Wythnos Gynefino yn dangos y digwyddiadau sydd wedi'u dylunio i chi gael ymgyfarwyddo â Met Caerdydd, ei gyfleusterau a'ch cyd-fyfyrrwyr. Fe gewch y cyfle i fynd i amrywiaeth o ddigwyddiadau a fydd yn ymwneud â'ch rhaglen, gwasanaethau'r llyfrgell, TG, gwasanaethau myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr. Byddwch yn cyfarfod hefyd ac yn cael nifer o sesiynau gyda'ch tiwtor personol i gael gwneud y broses o drosglwyddo i fywyd academiaidd y brifysgol yn un mor ddiraffferth â phosib.

Yn unol â'r wybodaeth isod am gyflawni'r rhaglen, bydd yr Wythnos Gynefino yn cynnwys gweithgareddau a fydd yn cael eu cyflawni ar amser pendant ac wedi'u harwain gan aelod o'r staff, a gweithgareddau a fydd wedi'u dylunio a'u gosod gan aelod o'r staff ond a fydd i'w cwblhau yn eich amser chi eich hunan. Bydd y gweithgareddau hyn yn digwydd ar-lein/amgylchedd rhithiol yn bennaf ar hyd yr wythnos gynefino; rydym hefyd yn cynllunio gweithgareddau i redeg ar-gampws lle y bydd cyfyngiadau'r llywodraeth yn caniatáu.

Mae eich digwyddiadau a'ch amserlen derfynol yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd a chân nhw eu llwytho yn ddogfennau ar wahân ar dudalennau'r [Myfyrwyr Newydd](#) i chi.

Ar gyfer y rheiny mewn Neuaddau Preswyl, peidiwch ag anghofio i wirio'r rhaglen a gynigir drwy'r [Tîm Bywyd Preswyl](#).



5. Cyflwyno'r Rhaglen

Oherwydd y pandemig COVID-19, mae rhaglenni Met Caerdydd wedi diwygio cyflwyno eu rhaglenni er mwyn cadw at ganllawiau ar bellhau cymdeithasol a mesurau eraill a nodwyd gan Lywodraethau'r DU a Chymru. Nod yr adran hon yw amlinellu'r hyn y gallwch ei ddisgwyl fel myfyriwr sy'n astudio rhaglen israddedig yn Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd.

Bydd eich cwrs yn parhau i gael ei gyflwyno trwy fodiwlau eich rhaglen. Yn hanfodol, mae hyn yn golygu y cynhelir yr holl ganlyniadau dysgu ar gyfer eich rhaglen. Mewn rhai achosion, efallai y bydd trefn neu hyd y modiwlau wedi cael eu newid i'n galluogi i gyflwyno'ch rhaglen yn effeithiol i ddarparu ar gyfer mesurau pellhau cymdeithasol. Lle rydym wedi gwneud newidiadau, eu nod yw darparu cefnogaeth sy'n cynnal ansawdd eich profiad dysgu.

I fod yn gynhwysol o'ch amgylchiadau unigol, rydym yn bwriadu cynnig eich cwrs trwy gymysgedd o gyfleoedd dysgu sydd naill ai'n gydamserol (wedi'u cyflwyno ar amser penodol a arweinir gan aelod o staff) neu'n asynronig (gweithgareddau wedi'u cynllunio a'u gosod gan aelod o staff, ond wedi'i gwblhau yn eich amser eich hun). Rydym yn bwriadu defnyddio cymysgedd o amgylcheddau dysgu rhithwir ar y campws i gynnig profiad dysgu gwell a hyblyg i chi.

Cyflwynir eich rhaglen mewn model ar sail tymor ([cliciwch yma am ddyddiadau tymor](#)), gyda diwrnod o ddysgu ar-lein cydamserol (wedi'i drefnu) ac ar-lein asynronig (yn eich amser eich hun) ar gyfer pob modiwl. Bydd pwynt cyswllt ar y campws hefyd ar ddiwrnod gwahanol, lle bydd sesiynau tiwtorial grwpiau bach, seminarau a/neu sesiynau ymarferol yn dod â'r dysgu at ei gilydd. Pwrpas y pwyntiau cyffwrdd pwysig hyn ar y campws fydd cefnogi eich dysgu ymhellach a sicrhau y gellir mynd i'r afael â phob canlyniad dysgu modiwl a rhaglen. Bydd y gweithgareddau ar y campws yn blaenoriaethu gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chanlyniadau dysgu na ellir ond eu cyflawni trwy weithgareddau ar y campws (h.y. ymarferol, gwaith labordy ac ati). Bydd y sesiynau hyn hefyd yn canolbwyntio ar hwyluso'ch integreiddio yn ein cymuned academiaidd yn llwyddiannus a datblygu'ch perthnasoedd â staff allweddol a chyd-fyfyrwyr ar eich rhaglen astudio. Rydym yn dylunio'r cwricwlwm hwn i alluogi hyblygrwydd i allu newid i gyflwyno'n llawn ar-lein os bo cyfyngiadau lleol pellach, neu gyflwyno'n llawn ar y campws pe bai cyfyngiadau'r llywodraeth yn lleddfu.

Bydd cyflwyno'r rhaglen, fel yr amlinellwyd uchod, yn canolbwyntio ar gymysgedd o weithgareddau dan arweiniad tiwtor, dan arweiniad myfyrwyr, gweithio mewn grŵp a seminar. Bydd hyn yn ategu'ch dysgu hunangyfeiriedig a wneir mewn amgylcheddau dysgu rhithwir. Ar hyn o bryd rydym yn brysur yn sefydlu faint o'ch dysgu wedi'i drefnu a dreulir ar y campws. Unwaith y bydd gennym fwy o wybodaeth fanwl am amserlen eich diwrnodau ar-lein ac ar y campws, rhown wybod i chi.

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion yn ymwneud â'r newidiadau ar gyfer pob rhaglen [yma](#) ac ar [dudalen COVID-19 y Brifysgol](#).



6. Newidiadau i'r Cwrs oherwydd COVID-19

Mae modd gweld unrhyw ddiweddariadau i'ch cwrs yn dilyn effeithiau COVID-19 ar y tudalen canlynol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio'r tudalen yma yn rheolaidd i gael unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau pellach, cyn dechrau eich cwrs.

<https://www.cardiffmet.ac.uk/study/newstudents/Pages/Programme-Updates.aspx>

Mae'n debyg y bydd peth o'r cyfnod cynefino yn digwydd ar-lein, weithiau drwy ddefnyddio *Microsoft Teams*. Rydym yn argymhell eich bod yn llwytho'r ap i lawr i'ch ffôn neu'n ymweld â'r wefan mewn porwr er mwyn ymgyswddo â sut i ddefnyddio'r system hon.

Os nad ydych yn gallu cael mynediad gartref i'r math yma o system, neu byddai'n anodd i chi wneud hynny yn rhyw ffordd, rhowch wybod i ni.

<https://www.microsoft.com/en-gb/microsoft-365/microsoft-teams/group-chat-software>



7. Dolenni defnyddiol

[Amserlen](#)

Bydd y ddolen hon yn rhoi mynediad i chi i'ch amserlen derfynol. Bydd rhaid i chi fod wedi ymrestru cyn y gallwch ddefnyddio'r ddolen yma, ac fe gysylltir â chi pan fydd y wybodaeth ar gael.

[Ymgysylltiad Byd-Eang](#)

Cyngor a chymorth ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol o'r tu allan i'r UE ar wneud cais am fisa, byw yn y DU, gwneud trefniadau llety a manteisio ar Wasanaeth Croesawu yn y Maes Awyr. Bydd Ymgysylltiad Byd-eang yn rhoi cymorth lles a chyngor dysgu ar hyd eich cwrs. Edrychwch hefyd ar ein cwestiynau a ofynnir yn aml: [http://www.cardiffmet.ac.uk/international/study/Pages/September-2020-FAQs-\(COVID-19\).aspx](http://www.cardiffmet.ac.uk/international/study/Pages/September-2020-FAQs-(COVID-19).aspx)

[Costau Cwrs Ychwanegol](#)

Costau ychwanegol yw'r treuliau gorfodol neu opsiynol, ar ben y ffioedd dysgu, y bydd angen eu talu gan fyfyrwyr iddyn nhw gael cymryd rhan lawn a chwblhau eu hastudiaethau. Bydd hyn yn cynnwys pethau megis offer, teithiau, lleoliadau a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae costau ychwanegol gwahanol gan bob rhaglen.

[Llety](#)

Bydd contractau preswyl myfyrwyr yn dechrau ar Fedi 28^{ain} 2020. Ond oherwydd cadw pellter cymdeithasol ac i sicrhau eich iechyd a'ch diogelwch chi a'n staff, fe fydd amseroedd cyrraedd y neuaddau preswyl yn ymestyn dros sawl diwrnod yr wythnos cyn hynny. Wedi i chi gael lle wedi'i gynnig i chi ac y byddwch wedi'i dderbyn, cadwch olwg am ebost a fydd yn rhoi gwybod i chi pryd y cewch symud i mewn. A wnewch chi nodi na fyddwch yn gallu defnyddio'r rhyngwrwyd yn y neuaddau heb i chi gwblhau'r broses ymrestru yn llwyddiannus. Cynhelir amrywiaeth o ddiwyddiadau drwy'r cyfnod cynefino a thrwy'r tymor cyntaf; bydd Llety yn anfon gwybodaeth atoch pan fydd y rhain wedi'u cadarnhau.

[Gwasanaethau Myfyrwyr](#)

I gael help yn ystod eich cyfnod gyda ni o ran eich iechyd, eich lles, eich dull byw a'ch gyrfa yn y dyfodol. Y nod yw rhoi'r holl gymorth fydd ei angen arnoch i sicrhau bod eich astudiaethau mor bleserus a mor llwyddiannus â phosib. Ymhlith y gwasanaethau eraill mae cwnsela, anableddeu a'r gaplaniaeth.

[Cyllid Myfyrwyr](#)

I gael gwybodaeth ar Fenthyciadau Ffioedd Dysgu a Benthyciadau Cynhaliadau, ac unrhyw fwrseriau, ysgoloriaethau a grantiau nad oes rhaid eu had-dalu, a allai fod ar gael.

[Chwaraeon a Chyfleusterau Met Caerdydd](#)

[Undeb Myfyrwyr Met Caerdydd](#) gan gynnwys Cymdeithasau UM, Clybiau Chwaraeon UM a'r gallu i gael mynediad i gyngor a chymorth annibynnol

[Dyddiadau'r Tymhorau](#)

[Mapiau'r Campws, Cysgodfeydd Beiciau a'r MetWibiwr](#)

Mae Met Caerdydd yn cynnig ei wasanaeth bysiau ei hun – y MetWibiwr. I gael rhagor o wybodaeth ac i gyrchu'r ffurflen gais, ewch i www.cardiffmet.ac.uk/MetRider. Mae cysgodfeydd storio beiciau gennym hefyd ar y ddau gampws, ac mae modd newid a chael cawod hefyd. Mae'r cysgodfeydd yn rhai diogel ac nid oes mynediad iddyn nhw ond drwy ddefnyddio'ch Met Gerdyn pan fyddwch wedi gofyn am ganiatâd drwy'r parth-g.

[Teithiau Tywys Rhithiol](#)

Edrychwch o gwmpas ein campws a'n cyfleusterau unwaith eto gyda'n teithiau tywys rhithiol.

[Llawlyfr y Myfyrwyr](#)

[Llawlyfr Academaidd](#)

[Polisi Derbyn Myfyrwyr](#)

[Cwestiynau a ofynnir yn aml](#)

[Cwynion](#)

